Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol)

Cefndir

1. Ar gais Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau, darparwyd ymateb gennym i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Mesur Prentisiaethau Drafft a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2008. Gosodwyd ein hymateb dros dro gerbron y Cynulliad ar 10 Hydref 2008. Gellir dod o hyd i gopi o'n hadroddiad yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/bus-committees-third-el-report-el3-08-r05.htm

2. Drafftiwyd y Mesur Prentisiaethau Drafft i fod yn gymwys i Loegr yn unig. Ceisiwyd eglurhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y dull o gynnwys cymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol. Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau at y Cadeirydd yn nodi'r darpariaethau y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu ceisio yn y Mesur Seneddol ar 22 Hydref 2008. Ceir copi o'r llythyr yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

3. Yn ei adroddiad ar y Mesur Prentisiaethau Drafft, nododd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau ei fod yn amlwg bod yr ymgynghoriad ar weithredu prentisiaethau yng Nghymru a chymhwyso'r ddeddfwriaeth ddrafft i Gymru wedi bod yn annigonol. Felly, argymhellir bod y Llywodraeth yn unioni'r sefyllfa cyn cwblhau darpariaethau'r Mesur Seneddol drafft. [1]

4. Ni ddigwyddodd hyn, er ein bod wedi nodi ein barn bod y dull deddfwriaethol hwn yn anfoddhaol ac nad yw'n adlewyrchu'n dda ar Lywodraeth y DU na Llywodraeth Cynulliad Cymru nac ychwaith y setliad cyfansoddiadol presennol.

---

[1] Seithfed adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmdius/1062/106202.htm

5. Cyflwynwyd y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu ("y Mesur Seneddol") gerbron y Senedd ar 4 Chwefror 2009. Symudodd ymlaen at y cyfnod pwyllgor ar 23 Chwefror 2009.

Cyflwyniad

6. Manteisiwyd ar y cyfle i gasglu rhagor o wybodaeth am farn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i dylanwad dros gynnwys y Mesur Seneddol drafft drwy holi John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, mewn gwrandawiad ar 12 Mawrth 2009.

7. Darparwyd memorandwm ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a cheir copi ohono yn Atodiad 2. Ceir trawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar yn Atodiad 3.

8. Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu y byddai'r Mesur Seneddol yn gyfle defnyddiol i godi safon a statws prentisiaethau yng Nghymru. Ystyriwyd a oedd y cymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol yn sail statudol gadarn i'r uchelgais hwn.

9. Felly, mae'r adroddiad sy'n dilyn yn crynhoi sesiwn graffu'r Pwyllgor ar waith y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar faterion polisi, y broses o gynnwys cymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol a pha mor briodol yw'r pwerau ynddo. Ceir rhestr o'n hargymhellion ar dudalen 8.

Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

10. 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yw'r teitl ar strategaeth gyffredin Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflogaeth a sgiliau ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008. Yn ei femorandwm ysgrifenedig, rhestrodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ei amcanion strategol sy'n berthnasol i'r rhaglen prentisiaethau:

    - creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc fanteisio ar brentisiaethau;

    - gofyn i Gynghorau Sgiliau Sector ddiffinio'u gofynion mynediad yn glir;

    - gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod cyfleoedd prentisiaethau ar gael yn haws drwy sefydlu gwasanaeth paru prentisiaethau;

    - alinio prentisiaethau â Bagloriaeth Cymru;

    - cynyddu nifer y prentisiaid sy'n cwblhau fframwaith cyfan, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn rhan o Gynllun Gwella 2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran dysgu yn y gwaith;

    - adolygu'r glasbrint prentisiaethau, sy'n rhoi arweiniad i Gynghorau Sgiliau Sector ar gynnwys eu fframweithiau prentisiaethau; a

- cynyddu nifer y prentisiaethau lefel uwch; ac annog mwy o fusnesau bach a chanolig i gymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaethau.

11. Cawsom wybod am lwyddiant y rhaglen prentisiaethau yng Nghymru, a hynny o gofio bod dwywaith gymaint o brentisiaethau fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru o gymharu â Lloegr erbyn hyn. Y gyfradd lwyddo ar hyn o bryd yw tua 50 y cant.

12. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei fod am adeiladu ar y seiliau cadarn hyn gan ddefnyddio prentisiaethau fel dewis cryf o fewn llwybrau dysgu 14-19.

Darpariaethau mewn perthynas â Chymru ar brentisiaethau yn y Mesur Seneddol

13. Yn ei femorandwm ysgrifenedig, darparodd y Dirprwy Weinidog drosolwg o'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn y Mesur Seneddol mewn perthynas â phrentisiaethau:

    - rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu safonau prentisiaeth yng Nghymru;

    - galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi cyrff i gyflwyno fframweithiau prentisiaethau;

    - galluogi naill ai Gweinidogion Cymru neu gyrff a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i gyflwyno tystysgrifau prentisiaethau i'r rhai sy'n cwblhau cyrsiau prentisiaethau; ac

    - egluro ystyr a statws cytundebau prentisiaethau a wneir yng Nghymru mewn cysylltiad â fframweithiau prentisiaethau cydnabyddedig.

14. Ceir dadansoddiad o'r cymalau a'u heffaith, a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan ei Gynghorwr Cyfreithiol a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, yn Atodiad 4.

Y Fanyleb Safonau Prentisiaeth

15. Buom yn holi'r Dirprwy Weinidog ynghylch y pŵer a roddir gan y Mesur Seneddol i amrywio safonau'r fanyleb sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, a hynny am ein bod ni am sicrhau na fyddai gwahaniaeth sylweddol. Gan fod prentisiaethau wedi'u seilio ar gymwyseddau a safonau galwedigaethol cenedlaethol, credwn y dylid sicrhau bod cysondeb ledled y DU.

16. Nod y Dirprwy Weinidog oedd ceisio rhoi sicrwydd i ni y byddai profiad gwaith a'r wybodaeth a geir drwy brentisiaethau yn ei hanfod yr un peth yng Nghymru ac yn Lloegr. Fodd bynnag, nododd y byddai rhai

trefniadau ar wahân yn briodol o gofio'r canran uchel o fusnesau bach a chanolig yn economi Cymru a chan fod rhaglen brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oedran wedi'i gweithredu yma. Nododd mai mân wahaniaethau fyddai'r rhain, lle y bo'n gymwys, yn ei farn ef.

17. Efallai y bydd rhai gwahaniaethau yn bodoli o ran y dystysgrif dechnegol, y mae'n ofynnol eu cysylltu â gofynion gwybodaeth y safonau galwedigaethol cenedlaethol, a hynny oherwydd y nod penodol o alinio prentisiaethau â Bagloriaeth Cymru. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog ei nod, a nododd yn wreiddiol yn ei dystiolaeth ar y Mesur Prentisiaethau Drafft, sef y dylid sicrhau bod cysylltiad da rhwng Bagloriaeth Cymru a phrentisiaethau fel bod rhannau penodol o Fagloriaeth Cymru yn cyfrif tuag at y fframwaith prentisiaethau. **Gan fod y mater hwn hefyd wedi codi yn ein hadroddiad ar y Mesur Prentisiaethau Drafft, gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth alinio prentisiaethau â Bagloriaeth Cymru.**

Materion trawsffiniol

18. Mae'n bwysig bod cyflogwyr a gweithwyr yn deall goblygiadau cwblhau prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig mewn meysydd lle nad yw prentisiaethau yn cael eu cynnig yng Nghymru, fel y diwydiant argraffu.

19. O ran y ddarpariaeth o brentisiaethau yng Nghymru, disgrifiodd y Dirprwy Weinidog sut yr aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati, gan ddefnyddio colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat, i asesu'r sgiliau sy'n ofynnol a hynny ar sail gwybodaeth am gyflenwad a galw.

20. Roeddem yn falch clywed bod trefniadau trawsffiniol yn bodoli sy'n caniatáu i brentisiaid yng Nghymru ymgymryd â'u hyfforddiant mewn coleg neu gyda darparwr hyfforddiant yn Lloegr. Fodd bynnag, mae dal angen mynd i'r afael â rhai materion gweithrediadol fel teithio ac ati. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod prentisiaethau yn Lloegr yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus gan weithwyr o Gymru.**

21. Ar y mater hwn, yr ydym yn tynnu sylw at fwlch posibl ynghylch ariannu, a awgrymir gan sylwadau a wnaed gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, pan ddywedodd fod, 'Cross-border arrangements are in place – the Welsh Assembly Government fund apprentices who live or work in Wales and there is a reciprocal arrangement with the Learning and Skills Council who apply the same policy'. (Gweler tudalen 11)

Prentisiaethau ar y cyd

22. Rydym eisoes wedi clywed gan y Dirprwy Weinidog fod prentisiaethau ar y cyd yn gweithio'n dda, a hynny o gofio'r fantais amlwg i fusnesau bach a chanolig ac roedd yn amlwg i ni fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i'w datblygu ymhellach drwy geisio mwy o ymgysylltiad gan y sector cyhoeddus. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu arfer da sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r peilot prentisiaethau ar y cyd drwy'r sector cyhoeddus, a hynny i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y fenter ganmoladwy hon.**

Y Cynghorau Sgiliau Sector

23. Mae'r Mesur Seneddol yn rhoi nifer o gyfrifoldebau ychwanegol i'r Cynghorau Sgiliau Sector, ac yn arbennig eu rôl newydd fel awdurdodau cyhoeddi. O gofio ein sesiwn graffu ddiweddarach ar waith y Cynghorau Sgiliau Sector, roedd gallu rhai o'r cynghorau i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd yn destun pryder i ni. **O gofio ein pryderon o ran gallu'r Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl i'r Mesur Seneddol gael Cydsyniad Brenhinol, yn monitro perfformiad y Cynghorau Sgiliau Sector yn ofalus wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, ac yn gofyn ei bod yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw bryderon i'r Pwyllgor hwn.**

24. Nodwn fod llawer o'r Cynghorau Sgiliau Sector yn mynd trwy'r broses aildrwyddedu o hyd ac ni chaiff hyn ei gwblhau tan fis Awst. Bydd y broses aildrwyddedu yn ceisio sicrhau bod Cynghorau Sgiliau Sector yn addas at y diben. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy is-grŵp perthnasol Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, yn cynorthwyo Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau i brofi bod y Cynghorau Sgiliau Sector sy'n gweithredu yng Nghymru yn addas at y diben.

Statws cyflogedig

25. Rydym yn cymeradwyo'r angen i brentisiaid gael statws cyflogedig a cheisiwyd sicrwydd bod yr egwyddor honno'n dderbyniol gan gyflogwyr. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn gweithio tuag at hynny. **Nid ydym am weld rhwystrau a allai tanseilio'r berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr yn hyn o beth. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain ac Ochr yr Undebau Llafur a phawb arall sy'n cynrychioli buddiannau cyflogwyr a gweithwyr, a hynny i sicrhau bod y syniad o statws cyflogedig ar gyfer prentisiaethau yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.**

26. Nodwn Lywodraeth Cynulliad Cymru fel enghraifft wych o ganlyniad i'w hymrwymiad i recriwtio 100 o brentisiaid yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Gyrfa Cymru

27. Roedd y Dirprwy Weinidog yn gobeithio y byddai pobl ifanc yn cael y cyngor angenrheidiol ar brentisiaethau drwy'r cwricwlwm gyrfaoedd a'r byd gwaith, sy'n cynnig cyfarwyddyd gyrfaoedd personol gyda chynghorwr gyrfaoedd cymwysedig yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Byddai gwybodaeth hefyd ar gael drwy wasanaeth prentisiaethau ar-lein newydd Gyrfa Cymru.

28. Nodwn fod cymal 35 yn gorfodi ysgolion yn Lloegr, pan roir cyngor am yrfaoedd i ddisgyblion, i ystyried pa un ai fyddai o fudd i'r disgyblion i dderbyn cyngor ynghylch prentisiaethau. Nid yw'r ddarpariaeth ar gael i Gymru.

Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru

29. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod uned prentisiaeth yn cael ei sefydlu o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Roeddem am ganfod rôl yr uned a sicrhau y byddai'n ategu agwedd gysylltiedig drwy gysylltu â swyddogion perthnasol yn Adran yr Economi a Trafnidiaeth.

30. Bydd yn bwysig i'r uned feithrin perthynas dda â chyflogwyr, y Cynghorau Sgiliau Sector a chyrff cynrychiadol, a hynny i sicrhau bod amcanion strategol 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn cael eu cyflawni'n briodol. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahodd adolygiad annibynnol neu adolygiad gan gymheiriaid o broses weithredu'r uned hon o fewn blwyddyn i'w sefydlu.**

Y broses ddeddfwriaethol

31. Roedd ein hadroddiad ar y Mesur Prentisiaethau Drafft yn codi nifer o bryderon difrifol ynghylch y dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnwys cymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol. Felly, roeddem am gael rhagor o wybodaeth gan y Dirprwy Weinidog parthed ei ymwneud â Llywodraeth y DU ac a oedd digon o ymgynghori wedi bod â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

32. Gofynnwyd hefyd pam ei bod yn ymddangos nad oes pwerau i wneud Mesurau yn y Mesur Seneddol. Dywedwyd wrthym na ofynnwyd am bwerau o'r fath gan fod y Mesur Seneddol yn rhoi'r swyddogaethau gweithredol angenrheidiol i Weinidogion Cymru.

33. Cododd hwn fater arall o ran y berthynas rhwng y Mesur Seneddol a Mesur Dysgu a Sgiliau'r Cynulliad, sy'n ceisio Cydsyniad Brenhinol ar hyn o bryd. Mae'n amlwg bod yna Fesur Seneddol unedig yn Lloegr sy'n dwyn ynghyd prentisiaethau, sgiliau a dysgu ond yng Nghymru, mae gennym y Mesur Dysgu a Sgiliau tra bo darpariaethau ar gyfer prentisiaethau yn cael eu gwneud yn neddfwriaeth y DU. Nodwn y

byddai hyn fodd bynnag yn sicrhau cyffredinedd a chysondeb ar gyfer y fanyleb safonau prentisiaeth, a drafodir uchod ym mharagraffau 15-16

34. Roedd y Dirprwy Weinidog yn fodlon bod Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn symud ymlaen ar sail arferoldeb o ran yr angen am gysondeb fel yr adlewyrchir ar wyneb y Mesur Seneddol.

35. Roeddem am sicrhau lefel y gwaith craffu ar gymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol wrth iddo fynd drwy Senedd San Steffan. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn rhan o'r broses yn ystod y cyfnod pwyllgor, a hynny am y byddai'n atal craffu effeithiol yn ein barn ni.

36. O gofio na fydd llawer o gyfle yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru nac yn Senedd y DU i graffu'n fanwl ar y cymalau Cymreig, credwn nad yw'r mater hwn yn adlewyrchu'n dda ar ddatblygiad datganoli. Yn arbennig, yr ydym yn dyfaru'n fawr na weodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dda i ddefnyddio'r cyfle hwn i geisio pwerau gwneud Mesurau. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu dull mwy strategol o ddeddfu a fydd yn ystyried y cyfleoedd a ddarperir gan y pwerau gwneud Mesurau a'r pwerau dirprwyedig ym Mesurau'r DU. Rydym yn argymell yn gryf ei bod yn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd sy'n deillio o'r gwyro o weithdrefnau deddfwriaethol arferol ar gyfer cynnwys cymalau Cymreig ym Mesurau'r DU, lle nad oes llawer o gyfle, os o gwbl, i graffu arnynt.**

Ceisio gwelliannau gan y Llywodraeth

37. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio sicrhau bod Cymal 8 yn cael ei ddiwygio ers i'r Mesur Seneddol gael ei gyhoeddi, a bod y diwygiad hwnnw yn ymwneud â'r awdurdod ardystio Cymreig, sef bod yr awdurdod ardystio yn cael ei enwi drwy Orchymyn yn hytrach na thrwy gael ei enwi'n ysgrifenedig. Credwn fod hwn yn gynnig synhwyrol.

Casgliad

38. Rydym wedi nodi llwyddiant y rhaglen prentisiaethau yng Nghymru ac rydym yn cymeradwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru am hyn. Fodd bynnag, roedd y broses ddeddfwriaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnwys cymalau Cymreig mewn Mesur y DU ymhell o fod yn foddhaol ac nid oedd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer craffu manwl naill ai yn San Steffan nac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Crynodeb o argymhellion

Gan fod y mater hwn hefyd wedi codi yn ein hadroddiad ar y Mesur Prentisiaethau Drafft, gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth alinio prentisiaethau â Bagloriaeth Cymru.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod prentisiaethau yn Lloegr yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus gan weithwyr o Gymru.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu arfer da sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r peilot prentisiaethau ar y cyd drwy'r sector cyhoeddus, a hynny i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y fenter ganmoladwy hon.

O gofio ein pryderon o ran gallu'r Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl i'r Mesur Seneddol gael Cydsyniad Brenhinol, yn monitro perfformiad y Cynghorau Sgiliau Sector yn ofalus wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, ac yn gofyn ei bod yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw bryderon i'r Pwyllgor hwn.

Nid ydym am weld rhwystrau a allai tanseilio'r berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr yn hyn o beth. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain ac Ochr yr Undebau Llafur a phawb arall sy'n cynrychioli buddiannau cyflogwyr a gweithwyr, a hynny i sicrhau bod y syniad o statws cyflogedig ar gyfer prentisiaethau yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahodd adolygiad annibynnol neu adolygiad gan gymheiriaid o broses weithredu'r uned hon o fewn blwyddyn i'w sefydlu.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu dull mwy strategol o ddeddfu a fydd yn ystyried y cyfleoedd a ddarperir gan y pwerau gwneud Mesurau a'r pwerau dirprwyedig ym Mesurau'r DU. Rydym yn argymell yn gryf ei bod yn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd sy'n deillio o'r gwyro o weithdrefnau deddfwriaethol arferol ar gyfer cynnwys cymalau Cymreig ym Mesurau'r DU, lle nad oes llawer o gyfle, os o gwbl, i graffu arnynt.

ATODIADAU

Atodiad 1 – llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a Chadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, 22 Hydref 2008 – Saesneg yn unig

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/ LF/JG/0026/08

Gareth Jones AM
Committee Chair
Enterprise and Learning Committee
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

22 October 2008

Dear Gareth

ENTERPRISE AND LEARNING COMMITTEE: DRAFT APPRENTICESHIPS BILL

Further to the meeting of the Enterprise and Learning Committee on 24 September, I am writing to provide further information on the issues raised by members at the meeting. I have also received your letter dated 10 October enclosing the Committee's interim response to the Innovation, Universities, Science & Skills Select Committee.

I am sorry that there was some confusion at the Enterprise and Learning Committee about the handling of the Draft Apprenticeships Bill. However, with regard to the Committee's interim report, I do think the position was clarified at my evidence giving session and it proceeded after the UK legislative process involved was stated, and accepted by me. To further clarify, the UK Government's legislative programme for the next session of Parliament set out the intention to publish a Bill which would include proposals for putting apprenticeships on a more robust statutory basis. The UK Government decided that, for consultation purposes, it wished to publish the proposals on apprenticeships separately in a Draft UK Apprenticeships Bill. However it was always the intention that the proposed legislation would become part of the 4th session Education and Skills Bill.

As you know the Draft UK Apprenticeships Bill was published for consultation in draft on 16 July 2008 The Welsh Assembly Government is considering the provisions in detail and has indicated to the UK Minister leading on this Bill that we would wish to consider the provisions in relation to Wales.

We wrote to the UK Government outlining our requirements on 12 August and, as I have stated, the Minister responsible for the Bill has indicated his willingness to include the provisions for Wales and we are in the process of drafting instructions for our lawyers as to the possible opportunities that this may provide. The Draft UK Apprenticeships Bill has been identified by the Welsh Assembly Government as potentially a useful opportunity to extend apprenticeships provisions to Welsh learners. As far as timing is concerned,

the provisions of the Draft UK Apprenticeships Bill are due to be included in the Education and Skills Bill to be introduced in the next UK Legislative Session. Using this opportunity will enable Welsh learners to benefit at the earliest opportunity and will not lead to learners in Wales being at a disadvantage in comparison with their counterparts in England.

As our current Legislative Programme is underway, with the Learning and Skills Measure already in Stage 1 Committee, waiting for similar provisions to be included in a future Measure would lead to a delay. Furthermore, the Assembly does not currently have legislative competence to include all the provisions required and therefore a Legislative Competence Order would also be necessary before a Measure could be passed. This would further lengthen delay in effecting the necessary changes to the law. Taking into account the relatively straightforward nature of the provisions, we believe that using the Education and Skills Bill is the most effective means of achieving this objective.

As I said at the Committee meeting, I am more than happy to discuss the opportunities that this Draft UK Apprenticeships Bill provides for Wales following the publication of the Education and Skills Bill.

The Committee also asked for information on the progress of the apprenticeship programme in Wales and how it compares with England. In Wales we have an all-age apprenticeship programme. The programme comprises:

- Foundation Modern Apprenticeships which equip trainees with skills at level 2;
- Modern Apprenticeships which are aimed at level 3 qualifications; and
- Modern Skills Diploma/higher level apprenticeships which are at level 4.

In England, Apprenticeships are available to young people aged 16-25 at level 2 and Advanced Apprenticeships at level 3. There has been some trialling of adult apprenticeships and the English strategy for apprenticeships- *World Class Apprenticeships: Unlocking Talent, Building Skills for* All - has signalled the intent to make more provision available for adult apprenticeships in the future.

World Class Apprenticeships outlines the strategy for taking forward apprenticeships in England whilst in Wales we have set out plans to improve the overall quality and performance on apprenticeship delivery in the *Work Based Learning Improvement Plan* which was published in 2006 and in *Skills that Work for Wales* published in July 2008. *Skills that Work for Wales* outlines our strategic approach to:

- create more opportunities for young people to access apprenticeships;

- ask Sector Skills Councils to define their entry requirements clearly;

- work with Careers Wales to provide easier access to apprenticeship opportunities through a vacancy matching service;

- align apprenticeships with the Welsh Baccalaureate;

- raise the proportion of apprentices who complete their whole framework, building upon the work already underway as part of our 2006 improvement plan for work-based learning;

- review the apprenticeships blueprint, which provides guidance for Sector Skills Councils on the content of their apprenticeship frameworks;

- develop more opportunities for higher level apprenticeships; and

- encourage more small and medium sized enterprises to participate in apprentice programmes.

Statistics showing the numbers participating in apprenticeship programmes in England and Wales are shown in annex A, attached. These figures suggest that at July 2007 the proportion of the working–age population on Modern Apprenticeships in Wales was twice the proportion on Advanced Apprenticeships in England.

Currently we have joint arrangements across England, Wales and Northern Ireland for setting the standards for the development of apprenticeship frameworks and the SSCs and sector bodies develop frameworks for use in all nations. Frameworks are essentially the high-level syllabus for an apprenticeship in a particular career. In England, Wales and Northern Ireland these frameworks are approved by an approvals group which is administered by the UK Commission for Employment and Skills. Scotland has a separate system for approving apprenticeship frameworks for use in Scotland.

Although trainees in England, Wales and Northern Ireland are following the same essential apprenticeship framework there are different arrangements in each nation for funding and supporting the delivery of apprenticeships. In Wales apprenticeship training is promoted and is funded via contracts with training providers by the Welsh Assembly Government. In England the Learning and Skills Council is responsible for funding, promoting and administering the apprenticeship programme. Cross border arrangements are in place – the Welsh Assembly Government fund apprentices who live or work in Wales and there is a reciprocal arrangement with the Learning and Skills Council who apply the same policy.

The proposals for apprenticeships in England include the setting up of a National Apprenticeship Service as part of the new Skills Funding Agency which will replace the Learning and Skills Council in 2010. This will include a field force responsible for promoting apprenticeships to employers in England. In Wales a network of HRD advisors is providing advice to employers on the training support available through Welsh Assembly Government programmes which includes the flexible provision available through the Workforce

Development Programme as well as the mainstream apprenticeship programmes. Providers of the Wales apprenticeship programme actively promote the benefits to employers and individuals. The Assembly Government provides supporting literature. Information is also available through Careers Wales and the Careers Advice helpline. A vacancy matching service is being developed in both England and Wales and we are exploring possible linkages between these.

I attach at annex B details of the location of HRD advisors in Wales and the take up of the Workforce Development Programme across the regions in Wales.

Annex C contains details of the take up of apprenticeships by unitary authority in Wales. This shows that the average take up of apprenticeships per working-age head of population in Wales is 1% for Modern Apprenticeships and 1.5% for Foundation Modern Apprenticeships. Taking the programme as a whole there would appear to be higher participation in Torfaen, Blaenau Gwent and Ynys Mon with slightly below average participation in Ceredigion, Flintshire and Monmouth. Information from Careers Wales companies across Wales suggests that the number of 16-18 year olds in the guarantee group awaiting an offer of a placement on work-based learning is very low. However this would not take account of those in preparatory training awaiting an apprenticeship placement. As I mentioned at the Committee we have action in hand to develop better matching services for people seeking apprenticeship places which will include a marketing campaign to encourage employers, particularly SMEs, to take on apprentices and advertise their vacancies through a central service. We are also piloting a ‘shared apprenticeship’ scheme which encourages the engagement of smaller employers and allows the apprenticeship the rounded work based learning vital to achieving a full qualification.

The committee also asked about the timetable for the relicensing of Sector Skills Councils (SSCs). The relicensing process started in June led by the UK Commission for Employment and Skills and is due to complete by September 2009. A timetable for relicensing has been issued and is attached at annex D. The National Audit Office will be visiting Wales to assess evidence on SSC performance, talking to stakeholders, interviewing and surveying employers and speaking to relevant SSC staff. The Wales Employment and Skills Board will advise Welsh Ministers on SSC performance and relicensing proposals. Ministerial approval in Wales for the decision relating to the first five SSCs is expected to be sought in February 2009.

I hope this is helpful but if you require any further clarification or detail please let me know.

Atodiad 2 – Memorandwm ysgrifenedig

Llywodraeth Cynulliad Cymru – Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=119201&ds=3/2009

Atodiad 3 – Trawsgrifiad o drafodion

Cyfarfod pwyllgor, 12 Mawrth 2009
http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=122457&ds=4/2009

Atodiad 4 – Dadansoddiad o gymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol sy'n ymwneud â phrentisiaethau – Saesneg yn unig

Chapter 1: Apprenticeships: Wales

Part 1 of the Bill makes provision about apprenticeships, including provision about **the issue of apprenticeship certificates,** and for the issue of **apprenticeship frameworks**.

It also obliges schools **in England**, when advising pupils on careers, to consider whether it would be in the best interests of pupils to receive advice relating to apprenticeships.

Clauses 5 to 8 make provision about the issue of apprenticeship certificates in Wales (clauses 1-4 for England). In particular, clause 8 provides that **the certifying authority for apprenticeships in Wales** will be persons designated for that purpose by the Welsh Ministers.

Contents of apprenticeship certificate: England and Wales

Clause 9 sets out the required contents of an apprenticeship certificate whether issued under clauses 1 or 2 (for England), 5 or 6 (for Wales).

Apprenticeship Frameworks: England and Wales

Clauses 10 to 20 cover apprenticeship frameworks which are high level curricula for an apprenticeship in a specified career. The frameworks typically include an integrated programme which contains a competence element; a knowledge element; transferable or key skills; and employment rights and responsibilities. These clauses set out the procedures for the issue of apprenticeship frameworks which will be developed by employers, Standard Setting Bodies and Sector Skills Councils according to the specification of apprenticeship standards in England and Wales. The separate provision for a specification of apprenticeship standards for England in clauses 21-25 and for Wales in clauses 26-29 enables variations between the specification of apprenticeship standards for England and the specification of apprenticeship standards for Wales and the related recognised frameworks.

Clauses 16 to 20 relate to apprenticeship frameworks in Wales. In particular, clause 16 provides Welsh Ministers with the power to designate a person to issue apprenticeship frameworks in Wales, or to issue apprenticeship frameworks relating to a particular sector. The clauses make provision about the issue and publication of apprenticeship frameworks in Wales. Broadly speaking, these provisions mirror those made by clauses 11 to 15 in relation to England.

Clauses 26 to 29 make mirror provisions in respect of **the specification of apprenticeships standards** for Wales. Welsh Ministers are given the power to prepare and consult on a draft specification of standards. Clause 29 lists the contents of specification standards for Wales. Broadly speaking, these provisions mirror those made by clauses 21 to 25 in relation to England.

Apprenticeship Agreements: England and Wales

Clauses 30 to 34 apply to both England and Wales. Clause 30 contains the meaning of “apprenticeship agreement”. The apprenticeship agreement will be a contract entered into between the employer and the apprentice.

Subsection (2) sets out the conditions which must be satisfied by an apprenticeship agreement. The agreement must be in a form to be prescribed by the Secretary of State. *Subsection (3)* gives the Secretary of State the power to specify provisions which must and must not be included in an apprenticeship agreement. *Subsection (4)* enables an apprentice to enter into successive apprenticeship agreements relating to the same framework, even where that framework has ceased to be a recognised framework.

General: England and Wales

Clause 37 requires the Secretary of State to specify **apprenticeship sectors**. The Government intends that these will be based upon the current sectoral coverage of Sector Skills Councils which are employer-led, independent organisations whose goals are to reduce skills gaps and shortages, improve productivity and increase opportunities to boost the skills and productivity of everyone in the sector’s workforce.

Delegated Powers

The Bill contains delegated powers for Welsh Ministers to make subordinate legislation as follows –

Clause 5 (7):-The prescribed manner in which the Welsh certifying authority must issue a certificate relating to an apprenticeship framework to a person who applies to the authority, is the manner prescribed by regulations made by the Welsh Ministers.

Clause 5 (5):-Regulations made by the Welsh Ministers to make provision for alternative Welsh completion conditions to apply in cases where a person works otherwise than under a Welsh apprenticeship agreement.

Clause 6 (1):-The prescribed manner in which a Welsh certifying authority may issue a certificate relating to an apprenticeship framework to a person who applies to the authority, is the manner prescribed by regulations made by the Welsh Ministers.

Clause 7 (2):-Regulations made by the Welsh Ministers may make provision about the supply of copies of apprenticeship certificates issued under section 5 or 6.

Clause 8 (c):-“The Welsh certifying authority”, in relation to an apprenticeship certificate means the Welsh Ministers.

Clause 16 (1):-The Welsh Ministers may designate a person to issue apprenticeship frameworks generally, or to issue apprenticeship frameworks relating to a particular apprenticeship sector.

Clause 20 (1):-The Welsh Ministers may by order provide for an existing vocational specification as if it were an apprenticeship framework that specified requirements for the purpose of the issue of apprenticeship certificates.

Clause 26 (3):-The Welsh Ministers may by order provide that a specification of apprenticeship standards is to have effect, and by modification (clause 27).